

Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cyfarfod Blynyddol

Clerc: Sarah Reast, E-bost: clerccllanbrynmair@gmail.com Tel. 07743 689912

Cofnodion y cyfarfod a gynhalwyd ar nôs Fercher, 6ed Mis Mai 2026, am 7:00yh
yn y Ganolfan Cymunedol, Llanbrynmair.

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), E Davies, G Davies, I Edwards, E Lewis, S Evans, D Jones, F Cauley a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau – P Jones

Cworum – 4 aelod sydd yn ffurfio cworum

Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion yn codi – Cytynwyd Mehefin 4ydd 2025.

Ethol swyddogion a cynrichiolwyr – Fydd R Ashton yn parhau i fod yn Gadeirydd a B Jones yn Is-Cadeirydd am ail flwyddyn yn ôl y traddodiad

Mae cynrichiolaeth y Cynghorwyr a'r Cyngor ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Adolygu a mabwysiadu Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol a pholisïau eraill

- Polisi iaith a cyfarfodydd ar-lein - Rhoddwyd sylw eto at rheolau ynglyn a cynnal cyfarfodydd ar-lein ac ar sut gall aelodau o'r cyhoedd mynychu cyfarfodydd yn enwedig pan fydd angen gwasanaeth cyfieithu. Nid oes yna cyngor ychwanegol gan Un Llais Cymu er dealltwyd fod cyfarfodydd ar lein gyda cyfieithu yn bosib yn technegol ond yn gymleth a dryd. Cytynwyd talu am Zoom er mwyn fod yn barod - £83.94
- Mae'r Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol Sefydlog wedi eu diweddarau a'u cyhoeddu ar y we-fan
- Cynllun Cyhoeddi - Rheolau ynglyn a mynediad i wybodaeth wedi ei ychwanegu at y we-fan
- Cyflwynwyd rhestr o polisiau eraill sydd angen eu gyhoeddu yn ystod y flwyddyn i ddod megis polisiau cwynion, GDPR a Côd Ymddygiad

Adroddiad blynyddol – Cyflwynwyd drafft o'r Adroddiad Blynyddol, trafodwyd rhai cywiriadau cyn ei cytuno. Trafodwyd creu tudalen ychwanegol gyda manylion ynglyn a grwpiau a gwasanaethau ychwanegol yn yr ardal

Adolygu a mabwysiadu cynllyn hyfforddi'r Cyngor – Mae'r Clerc yn gweithio tuag at cymhwyster ILCA (Introduction to Local Council Administration) sydd yn cael ei ariannu gan Cyngor Cymuned Ceri lle mae hi hefyd yn Glerc. Fydd R Ashton yn mynychu Gweminar Paratoi Cyfrifon ar gyfer Archwiliad ac mae'r diweddariad ar hyfforddiant arall a gwbwlhawyd gan y Cynghorwyr yn yr Adroddiad Blynyddol

Cadarnhau trefniant yswiriant ar gyfer pob risg perthnasol – Cafodd y polisi yswiriant ei diweddarau ym mis Medi 2025. Cyflwynwyd drafft o rhestr o asedau ar gyfer paratoi at yr adolygiad yswiriant nesaf.

Adolygu aelodaeth Cynghorwyr i cyrff eraill - Mae diweddariad ar aelodaeth Cynghorwyr ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Materion ariannol a cadarnhau'r mantolen ar gyfer yr 'Annual Return' –

1. Mantolen terfynnol i 2025-26 – cytynwyd y ffigurau fel adlewyrchiad cywir o taliadau a derbyniadau. Bydd y ffigurau yn cael ei defnyddio ar yr 'Annual Return'
2. Polisi ariannol a rheolaeth risg – Adolygwyd y broses o cymeradwyo taliadau ac ychwanegwyd rhestr o taliadau aml a'r cytundebau cysylltiedig i'r Clerc cael prosesu'n annibynol pan fydd angen. Llofnodwyd gan y Cyngorwyr perthnasol
3. Taliadau a lwfansau i cyngorwyr – Cadarnhawyd fod yna ddigon o arian wrth gefn yn y cyfrif cadw ar gyfer lwfansau. Fydd angen cwblhau'r cofrestr o taliadau yn y cyfarfod cyffredinol nesaf

Apwyntiad cyfrifwyr ar gyfer awdit allanol – Cytynwyd i ddefnyddio cyfrifwyr DRE & Co. yn y Drenewydd

Cyflog a contract y Clerc – Cytynwyd ar codiad cyflog i'r Clerc i adlewyrchu profiad (o level 6 i 7 yn ôl canllawiau 'National Joint Council for Local Government Services') yn cyfarfod Cyffredinol Mawrth 4ydd 2026 a penderfynwyd adolygu a diweddarau'r contract erbyn y cychwyn o pob blwyddyn ariannol o hyn ymalen

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf –

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol nesaf ar nôs Fercher, 3ydd mis Mehefin 2026, 7.00yh

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nesaf ar nôs Fercher, y 5ed o mis Mai 2027, 7.00yh

Dilynwyd y Cyfarfod Blynyddol gan Cyfarfod Arferol byr i adolygu cais cynllunio a taliadau dyledus

Cynllunio – P/26/0034/FU – Gosod llafn newydd ar tyrbîn a seilwaith cysylltiedig – Dim gwrthwynebiad

Taliadau -

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
06/05/26	Cyflog y Clerc - Ebrill	£547.60	Cytunwyd
06/05/26	Border Janitorial	£119.65	Cytynwyd
06/05/26	Andrew Mears – Dadblocio draenau	£50.00	Cytynwyd
06/05/26	Andrew Mears – Glanhau'r toiledau - Ebrill	£360.00	Cytynwyd
06/05/26	Buftons Plumbing	£96.00	Wedi talu ar ôl cytuno ar ebost Ebrill 10fed gan E Davies, P Jones, S Evans, R Ashton, B Jones a F Cauley oherwydd argyfwng dŵr yn colli
06/05/26	E.ON Next - Ebrill	£28.19	Cytynwyd
06/05/26	Gloversure - Wefan	£48.00	Cytynwyd

Sarah Reast, Clerc, Cyngor Cymuned Llanbryn-mair